



Asiantaeth  
Iechyd Anifeiliaid  
a Phlanhigion

## Gwybodaeth i Filfeddygon Gweithredol Wasanaethau Gwyliadwriaeth a Diagnostig Milfeddygol yng Nghymru a Lloegr

### » Beth yw Gwasanaethau Gwyliadwriaeth a Diagnostig APHA?

Mae gwyliadwriaeth rhag clefydau'n galluogi canfod ac ymchwilio i glefydau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg eto yn gynnar ac yn ein helpu i ddeall patrymau a thueddiadau clefydau. Mae'r Llywodraeth yn rhoi cymhorthdal ar gyfer rhai gwasanaethau diagnostig fel y gallwn roi gwybodaeth y gall milfeddygon a ffermwyr ei defnyddio i helpu i leihau effeithiau clefydau.

### » Y gwasanaethau rydym yn eu cynnig



**Profion diagnostig a chyngor** yn cwmpasu amrywiaeth eang o glefydau endemig rhywogaethau da byw fferm a bywyd gwylt.



**Mae archwiliadau post mortem (PME)** ar gael yng Nghanolffannau Ymchwiliadau Milfeddygol APHA a'n darparwyr partner sy'n gweithio ar ein rhan yng Nghymru a Lloegr. Dewch o hyd i'ch Canolfan Ymchwiliadau Milfeddygol/darparwr partner agosaf:  
<http://apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/diagnostic/national-network.htm>



**Mae gwasanaeth casglu carcasau** am ddim i ffermwyr ar gyfer archwiliadau post mortem diagnostig ar gael mewn rhannau o Gymru a Lloegr. Defnyddiwch yr adnodd chwilio cod post ar Borth Milfeddygon APHA er mwyn dod o hyd i'ch canolfan PME ddynodedig a chadarnhau a ydych yn gymwys i gael gwasanaeth casglu carcasau am ddim::  
<http://apha.defra.gov.uk/postcode/pme.asp>



Mae **dangosfyrddau cadw golwg ar glefydau da byw** ar gael am ddim i bawb ar-lein ac maent yn rhannu gwybodaeth am y clefydau a ganfyddir o gyflwyniadau i rwydwaith gwyliadwriaeth a diagnostig milfeddygol Prydain Fawr:  
<http://apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/scanning/disease-dashboards.htm>



Caiff **adroddiadau gwyliadwriaeth a gwybodaeth reolaidd** eu cyhoeddi ar-lein neu ar ein cyfryngau cymdeithasol. Cofnodir ein canfyddiadau yn y 'Cofnod Milfeddygol' bob mis - yn ogystal ag adroddiadau eraill ar-lein yn: <http://apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/reports.htm>

### Enghreifftiau diweddar o ganfyddiadau gwyliadwriaeth

- Syndrom Ysgôth yr Haf difrifol mewn lloi a gafodd eu diddyfnu
- Amrywiaeth gynyddol mewn mathau o feirws atgenhedlu ac anadlu mewn moch
- Gwyddon y clafr sydd ag ymwrthedd at gynhyrchion macrocyclic lactone (ML) i'w chwistrellu
- Haint â mwydod *Nematodirus lamae* wedi'u canfod mewn alpacaod
- Clefydau adenofirool mewn cywion brwylio a dodwy
- Feirws amrywiad clefyd gwaedlifol 2 newydd wedi'i ganfod mewn cwingod gwylt a domestig

## » Cyngor a mynediad at arbenigedd am ddim

Rhowch wybod i ni am unrhyw arwyddion o glefyd newydd neu anarferol a welwch. Gallwn roi cyngor am ddim ar ymchwilio i achosion o glefyd a'u diagnosis ac mae'r wybodaeth a geir gan bob fferm yn werthfawr er mwyn cadw golwg ar glefydau yn genedlaethol. Cysylltwch â ni os ydych yn credu y gallwn helpu.

